dti

DYRANNU YMLAEN LLAW

Cynnig ynghylch sut i reoli gweddillion tanwydd niwclear o dramor sy'n disgwyl i gael eu prosesu yn Sellafield

YMGYNGHORIAD

MEHEFIN 2007

URN 07/1071W

Esboniad ar gyd-destun ehangach yr ymgynghoriad a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni

Mae gweddillion tanwydd o dramor yn cael eu hailbrosesu yn y Gwaith Ailbrosesu Ocsid Thermol (THORP) yn Sellafield yng Nghymbria er mwyn adfer a gwahanu'r deunyddiau niwclear y gellir eu hailddefnyddio, plwtoniwm ac wraniwm, oddi wrth y gwastraff. Unwaith y bydd y deunyddiau wedi'u hadfer gellir rhoi dyraniad o'r deunyddiau hynny a'r gwastraff perthynol i'r cwsmer. Wedyn gellir dechrau dychwelyd y deunyddiau a'r gwastraff.

Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) yn cynnig y dylid dyrannu deunyddiau o'r fath o gyflenwadau'r Deyrnas Unedig (DU) cyn iddynt gael eu hadfer mewn gwirionedd trwy ailbrosesu. Byddai'r dyraniad ymlaen llaw ar gyfer swm cyfartal o ddeunyddiau i'r hyn sydd yn y gweddillion tanwydd a byddai'n digwydd trwy drosglwyddo teitlau ar yr un pryd. Byddai cynnig o'r fath yn helpu i sicrhau bod y deunyddiau hyn yn cael eu dychwelyd i'r cwsmeriaid mewn modd amserol.

Gofynnodd yr NDA am gymeradwyaeth yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) ar gyfer ei gynnig yn unol â'i drefniadau llywodraethu, ac yn unol â'r polisi fel y'i nodir yn y Papur Gwyn "*Managing the Nuclear Legacy*", lle mynnir cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer unrhyw newidiadau yn y cytundebau presennol sydd gan THORP.

Ar hyn o bryd tueddwn tuag at gefnogi cynnig yr NDA, yn amodol ar ystyried unrhyw faterion a godir yn sgil yr ymgynghoriad hwn. Byddai'r trefniadau arfaethedig yn caniatáu i wastraff a phlwtoniwm gael ei ddychwelyd yn amserol at gwsmeriaid tramor. Mae'n gyson â'r polisi presennol a ddisgrifir ym Mhapur Gwyn 1995 "*Review of Radioactive Waste Policy, Final Conclusions*" (Cm 2919) ac nid oes iddo oblygiadau o ran diogelwch, seciwriti nac yn amgylcheddol.

Er na chafodd dyrannu ymlaen llaw fel hyn ei ystyried yn benodol adeg Papur Gwyn 1995, ni fyddai'r cynnig yn effeithio ar yr ymagwedd eang tuag at reoli gwastraff a nodir yn y papur hwnnw, heblaw yn y sefyllfa annhebygol pryd na fyddai'n bosibl ailbrosesu'r tanwydd trwy THORP.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau bod partïon â diddordeb yn cael cyfle i fynegi eu safbwyntiau cyn y gwneir penderfyniad er mwyn sicrhau na fyddwn yn esgeuluso unrhyw ffactorau arwyddocaol wrth lunio ein penderfyniad.

Cyhoeddwyd	14 Mehefin 2007
Ymateb erbyn	26 Gorffennaf 2007

Ymholiadau at	Dean Gallacher Adran Masnach a Diwydiant Nuclear Consultations and Liabilities Unit 1 Victoria Street Llundain SW1H 0ET

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

Manylion yr ymgynghoriad
- Sut i ymateb
- Copïau ychwanegol a manylion cysylltu
- Cyfrinachedd a diogelu data
- Cymorth gydag ymholiadau

Y Cynnig
- Cyflwyniad
- Effaith ar bolisi
- THORP
- Deunydd gwastraff
- Canlyniadau amgylcheddol

Cwestiynau

Beth sy'n digwydd nesaf?
- Cynlluniau ac amserlen ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r canlyniadau

Crynodeb Gweithredol

1. Mae THORP, a leolir yn Sellafield yng Nghymbria, yn ailbrosesu gweddillion tanwydd niwclear o'r DU a thramor er mwyn adfer wraniwm a phlwtoniwm y gellir eu hailddefnyddio. Bydd y plwtoniwm wedi'i adfer a'r gwastraff o ganlyniad i hynny yn cael eu cyfuno gyda deunyddiau eraill tebyg a bydd symiau ohonynt, sy'n cyfateb i'r symiau a gafodd eu hadfer, yn cael eu dyrannu i'r cyfryw gwsmeriaid. Bydd wraniwm yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r cwsmeriaid priodol yn dilyn ailbrosesu.

2. Cynnig yr NDA yw y dylid, lle bo hynny'n briodol, caniatáu i ddeunydd gael ei roi ymlaen llaw o gyflenwadau'r DU o ddeunyddiau niwclear a gwastraff i gwsmeriaid tramor cyn mynd ati i ailbrosesu'r gweddillion tanwydd a geir ganddynt. Byddai hyn yn lle'r deunyddiau a fyddai heb eu hadfer eto o'r gweddillion tanwydd a byddai'n digwydd trwy drosglwyddo teitlau ar yr un pryd. Byddai'r cynnig yn gwarantu y byddai deunyddiau niwclear ar gael i gwsmeriaid tramor ar amserlen sy'n bodloni eu hanghenion er mwyn hwyluso dychweliad amserol unrhyw wastraff, plwtoniwm ac wraniwm yn y ffordd orau.

3. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar yr ymagwedd ehangach at reoli gwastraff ac yn ei hanfod mae'n fater busnes rhwng y cwsmer, yr NDA sy'n berchen ar y safle a British Nuclear Group Sellafield Cyfyngedig (BNGSL) sy'n gweithredu'r safle a rheoli'r cytundebau er budd yr NDA trwy gytundeb rheoli a gweithrediadau. Cyfeiriwyd y cynnig hwn at y DTI i'w gymeradwyo yn unol â threfniadau llywodraethu yn ymwneud â gweithgareddau ailbrosesu. Ar hyn o bryd mae'r DTI yn tueddu tuag at gymeradwyo'r cynnig ar y sail:

   - Fod dyrannu deunyddiau ymlaen llaw o fewn y polisi sy'n ymwneud â mewnforio gweddillion tanwydd o dramor ar gyfer eu hailbrosesu (Cm 2919).

   - Bwriedir y bydd yr holl weddillion tanwydd o dramor sy'n dod dan gytundebau tramor presennol yn cael eu hailbrosesu.

   - Ni fydd unrhyw gynnydd net yn y cyflenwadau o ddeunyddiau niwclear neu wastraff sy'n cael eu cadw yn y DU.

   - Mae'r cynnig yn un niwtral yn amgylcheddol.

4. Fodd bynnag, cyn dod i unrhyw gasgliad ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cynnig ai peidio, rydym yn casglu safbwyntiau gan sefydliadau eraill nad ydynt yn rhai llywodraethol, diwydiant, cyrff cynrychioliadol, unigolion a phartïon eraill â diddordeb o ran a oes yna ffactorau na chawsant eu hystyried gennym a fyddai'n effeithio ar ein penderfyniad ynghylch cynnig yr NDA.

5. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw amlinellu cais yr NDA. Nid yw'n cyflwyno cynigion ar gyfer rheoliadau na deddfwriaeth newydd ac nid yw'n ymgynghoriad ynghylch datblygu polisïau newydd. Mae canllawiau Swyddfa'r Cabinet yn cynghori y dylid rhoi lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad unrhyw bolisi. Yn yr achos hwn, gan nad oes unrhyw bolisi newydd yn cael ei ddatblygu a chan na fydd y cynnig yn effeithio ar fusnes, bydd y cyfnod ymgynghori yn wahanol i'r hyn a nodir yn y canllawiau a bydd yn para chwe wythnos. Gan na chyflwynir unrhyw reoliadau, nid oes raid cynnal Asesiad Effaith Reoleiddiol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 26 Gorffennaf 2007

6. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Sut i ymateb

7. Wrth ymateb, os gwelwch yn dda a wnewch chi nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cynrychioli safbwyntiau sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, a wnewch chi egluro pwy y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo'n berthnasol, sut y cafodd safbwyntiau'r aelodau eu dwyn ynghyd.

8. Gellir ymateb trwy anfon llythyr, ffacs neu e-bost at:

   Dean Gallacher
   Adran Masnach a Diwydiant
   Nuclear Consultations and Liabilities Unit
   1 Victoria Street
   Llundain
   SW1H 0ET
   Ffôn: 020 7215 0428
   Ffacs:020 7215 2842
   E-bost: dean.gallacher@dti.gsi.gov.uk

9. Mae rhestr o'r sefydliadau a'r unigolion a dderbyniodd gopi o'r ymgynghoriad hwn yn Atodiad B. Byddem yn croesawu awgrymiadau ynghylch eraill a fyddai'n dymuno bod yn rhan o'r broses ymgynghori hon o bosibl.

Copïau ychwanegol

10. Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd. Fe gewch chi ragor o gopïau o'r ddogfen wedi'u hargraffu gan:

    DTI Publications Orderline
    ADMAIL 528
    Llundain SW1W 8YT
    Ffôn: 0845-015 0010

Ffacs: 0845-015 0020
Minicom: 0845-015 0030
www.dti.gov.uk/publications

11. Mae fersiwn electronig yn http://www.dti.gov.uk/files/file39759.pdf . Mae fersiwn Cymraeg yn http://www.dti.gov.uk/files/file39760.pdf.

12. Gallwch wneud cais am fersiynau eraill o'r ddogfen mewn Braille, ieithoedd eraill neu ar dâp sain.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

13. Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych yn dymuno i wybodaeth arall a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, a wnewch chi gofio, dan ddeddf FOIA, fod yna Gôd Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

14. O gofio hyn, fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio wrthym pam rydych yn ystyried y wybodaeth a ddarparwch yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi cyfrif llawn i'ch esboniad, ond ni allwn warantu y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Os yw eich system Technoleg Gwybodaeth yn cynhyrchu ymwadiad cyfrinachedd awtomatig, ni fydd hynny ynddo'i hun yn cael ei ystyried yn rhwymol ar yr Adran.

15. Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r DPA ac ym mwyafrif yr achosion bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

Cymorth gydag ymholiadau

16. Gallwch anfon cwestiynau ynghylch y materion polisi a godir yn y ddogfen at:

Dean Gallacher
Adran Masnach a Diwydiant
Nuclear Consultations and Liabilities Unit
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 0428
E-bost: dean.gallacher@dti.gsi.gov.uk

17. Os oes gennych sylwadau neu gwynion am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylech eu hanfon at:

Kathleen McKinlay, Cydgysylltydd yr Ymgynghoriad
Adran Masnach a Diwydiant
Better Regulation Team
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET

E-bost: Kathleen.McKinlay@dti.gsi.gov.uk
Ffôn: 020 7215 2811
Ffacs: 020 7215 2235

18. Mae copi o Gôd Ymarfer yr Ymgynghoriad yn Atodiad A**.**

Y cynnig

19. Mae gweithgareddau ailbrosesu gweddillion tanwydd niwclear yn Sellafield yn cynnwys cytundebau tramor ble bydd y cwsmeriaid yn derbyn wraniwm a phlwtoniwm i'w hailddefnyddio ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dychwelyd y cynhyrchion gwastraff ymbelydrol i'r cwsmeriaid. Yn dilyn ailbrosesu, bydd y plwtoniwm, yr wraniwm a'r gwastraff yn cael eu cyfuno gyda chyflenwadau presennol o'r un math o ddeunyddiau. Bydd symiau yn cyfateb i'r hyn a adferir wrth ailbrosesu yn cael eu dyrannu a'u rhoi ar restr eiddo pob cwsmer. Bydd wraniwm yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r cwsmeriaid priodol yn dilyn ailbrosesu. Yna gellir defnyddio plwtoniwm y cwsmer ar gyfer cynhyrchu tanwydd niwclear MOX. Bydd wraniwm a gwastraff yn cael eu storio hyd nes y byddant yn cael eu dychwelyd i'r cwsmeriaid.

20. Yr NDA sy'n berchen ar THORP. BNGSL sy'n gweithredu'r safle a rheoli'r cytundebau ailbrosesu er budd yr NDA trwy gytundeb rheoli a gweithredu. Yn yr achos hwn, mae'r NDA wedi mynd at y DTI yn unol â'u trefniadau llywodraethu ac oherwydd bod yn rhaid i'w cynnig gael cymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn yr ymrwymiad yn y Papur Gwyn "*Managing the Nuclear Legacy*".

21. Gofynnodd yr NDA i'r DTI gytuno y gall yr NDA wahanu perfformiad y gwaith THORP oddi wrth faint o ddeunyddiau sydd ar gael ar gyfer ailbrosesu. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy fynd ati, cyn ailbrosesu, i ddyrannu symiau o ddeunyddiau (a gwastraff) a fyddai'n hafal i'r symiau a gâi eu hadfer yn dilyn yr ailbrosesu ei hun.

22. Byddai'r deunyddiau yn cael eu rhoi ymlaen llaw yn lle'r hyn a fyddai'n cael ei adfer o'r gweddillion tanwydd o dramor yn dilyn ei ailbrosesu yn THORP. Ni fyddai'n effeithio ar yr ailbrosesu ei hun, gan y bydd hynny'n bwrw ymlaen yn unol â chytundebau presennol. Trwy ddyrannu ymlaen llaw fel hyn, gellir sicrhau y bydd plwtoniwm ar gael i'w gynhyrchu'n danwydd newydd MOX mewn modd amserol ar gyfer y cwsmer, yn ogystal â sicrhau bod gwastraff tramor ar gael ar gyfer ei ddychwelyd. Bydd cyflenwadau a rhestr eiddo gwastraff y DU yn cael eu hail-lenwi unwaith y bydd y gweddillion tanwydd perthnasol wedi cael eu hailbrosesu.

23. Er mwyn caniatáu dyrannu ymlaen llaw, rhaid cyfnewid perchnogaeth deunyddiau; hynny yw rhaid i'r cwsmer gyfnewid perchnogaeth y gweddillion tanwydd a'r DU gyfenwid perchnogaeth ar swm cyfatebol o ddeunydd ymholltus. Rhaid gwneud hyn rhag i'r cwsmer gymryd y ddau deitl (sef perchnogaeth ar eu gweddillion tanwydd a rhywfaint o ddeunydd y DU) a chanlyniad hyn yw y bydd y DU yn ysgwyddo cyfrifoldeb parhaol am y gweddillion tanwydd. Yn gyfnewid, bydd y cwsmer, ar yr un pryd, yn ysgwyddo cyfrifoldeb parhaol am y swm cyfatebol o blwtoniwm, wraniwm a deunyddiau gwastraff o gyflenwadau'r DU. Ni fydd unrhyw faterion yn codi o hyn ac eithrio dan yr amgylchiadau hynod annisgwyl petai gwaith THORP yn cael ei gau'n barhaol ac yn methu ailbrosesu'r deunydd. Rhoddir rhagor o sylw i hyn ym mharagraff 29 isod.

24. Prif ysgogiad y cynnig hwn yw gallu dychwelyd cynhyrchion ailbrosesu yn amserol at gwsmeriaid tramor. Oherwydd i THORP fod wedi'i ddiffodd dros dro eithr am gyfnod estynedig, a bod rhai adweithyddion yn Ewrop wedi'u cau, mae'n golygu nad yw ei amserlen ailbrosesu bellach yn unol â'r amserlen ar gyfer gwneud tanwydd MOX, gan beryglu cyflenwadau tanwydd MOX i gwsmeriaid tramor - sef y ffurf y mae mwyafrif y cwsmeriaid tramor yn dymuno derbyn y plwtoniwm yn ei ôl yn dilyn yr ailbrosesu. Yn yr un modd, bydd dyrannu gwastraff ymlaen llaw yn cynorthwyo o ran dychwelyd gwastraff yn amserol. Gan fod yr hyblygrwydd hwn yn cynorthwyo cwsmeriaid i gadw at eu rhaglen, bydd yn darparu budd economaidd i'r NDA i'w ddefnyddio mewn gweithgareddau datgomisiynu.

    Ni fydd trefniadau dyrannu ymlaen llaw ond yn cael eu cefnogi gan yr NDA mewn achos penodol lle bo cyfiawnhad neilltuol dros wneud hynny a lle bo'r NDA yn fodlon bod yna fudd economaidd priodol.

Y polisi ar fewnforio gwastraff o dramor

25. Mae'r polisi sy'n ymwneud â mewnforio gwastraff o dramor ar gyfer ei ailbrosesu yn cael ei ddisgrifio yn *Review of Radioactive Waste Policy, Final Conclusions* (Cm 2919). Dyma'r egwyddorion allweddol:-
    - y dylai gwastraff lefel uchel gael ei ddychwelyd at y cwsmeriaid cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl ei droi'n wydr (gwydriad).
    - ni ddylid mewnforio gwastraff ymbelydrol i'r DU na'i allforio oddi yno (ac eithrio ar gyfer adfer deunyddiau y gellir eu hailddefnyddio, ar yr amod mai dyma'r gwir brif bwrpas); a
    - lle byddai prosesau o'r fath yn ychwanegu'n sylweddol at y gwastraff y byddai angen ei waredu yn y DU, y rhagdybiaeth fyddai bod gwastraff ac unrhyw ddeunyddiau y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu dychwelyd at y cwsmeriaid.

26. Mae dyrannu ymlaen llaw yn gwbl gyson â'r egwyddorion allweddol hyn o ran ei fod yn hwyluso'r drefn o ddychwelyd gwastraff yn amserol at gwsmeriaid tramor BNGSL. Ein bwriad eglur yw y bydd y gweddillion tanwydd yn cael eu hailbrosesu yn THORP, ac y bydd y deunyddiau a'r gwastraff adferedig yn ail-lenwi cyflenwadau'r DU o ble y daethai'r dyraniad ymlaen llaw. O gofio mai'r bwriad yw y bydd yr holl weddillion tanwydd yn cael eu hailbrosesu, ni fyddai rhoi cymeradwyaeth i ddyrannu ymlaen llaw yn golygu newid polisi o gwbl.

27. Polisi'r llywodraeth yw cadw THORP ar agor nes bydd y cytundebau tramor wedi'u cwblhau. Ni fydd dyrannu ymlaen llaw yn cael unrhyw effaith ar y polisi hwn gan y bydd y gweddillion tanwydd yn parhau i gael eu hailbrosesu yn THORP.

28. Cafodd gwaith THORP gydsyniad i ailddechrau a bydd yn barod i barhau ag ailbrosesu gweddillion tanwydd cyn gynted ag y bydd cyfleuster anweddol ategol wedi'i ailsefydlu. Disgwylir hyn oddeutu'r hydref 2007 ond oherwydd cymhlethdodau'r anweddydd sy'n cynnal THORP, mae'n bosibl y bydd oedi pellach. Y sefyllfa waethaf fyddai gorfod aros i'r anweddydd newydd, sydd wrthi'n cael ei adeiladu, ddod yn barod tua 2010 / 2011.

29. Yn yr achos annhebygol pryd y byddai THORP yn cael ei gau'n barhaol, fe fyddem, ar y cam hwnnw, yn ystyried;
- trosglwyddo'r gweddillion tanwydd i ailbrosesydd arall i'w hailbrosesu;
- cadw'r gweddillion tanwydd yn y DU.
Byddai unrhyw benderfyniad yn ddarostyngedig i ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân.

Effaith ar Wastraff

30. Nid yw dyrannu ymlaen llaw yn cael unrhyw effaith ar faint o wastraff ymbelydrol fydd yn cael ei waredu yn y DU. Bydd cwsmeriaid tramor yn derbyn y swm priodol o wastraff yn ôl yr arfer. Bydd y deunydd gwastraff hwn yn cael ei ddychwelyd yn unol â chytundebau presennol. Yn amodol ar drafodaethau rhwng BNGSL a'i gwsmeriaid tramor gallai'r cynnig helpu i'w gwneud hi'n bosibl i ddychwelyd gwastraff yn gynharach.

Amgylchedd

31. Tra bo'r tanwydd yn cael ei reoli'n briodol, mae'r broses ddyrannu ymlaen llaw yn lled niwtral yn nhermau ei heffaith net ar yr amgylchedd.

    a. Ni fydd y cynnig dyrannu ymlaen llaw yn effeithio ar amserlen ailbrosesu THORP. Bydd yr un gweddillion tanwydd yn cael eu hailbrosesu gan ddilyn yr un amserlen, gyda'r un allyriannau.

    b. Ni fydd yn rhaid i'r DU waredu dim mwy o wastraff gan y bydd y cwsmeriaid yn derbyn y swm priodol o wastraff yn ôl yr arfer.

    c. Ni fydd unrhyw gynnydd cyffredinol yn nhrawsgludiad deunyddiau ymbelydrol: bydd yr un swm o danwydd newydd a gwastraff yn cael ei anfon yn ôl i'r cwsmeriaid.

    d. Ni fydd unrhyw gynnydd na lleihad cyffredinol yng nghyflenwad y DU o ddeunyddiau niwclear.

Cwestiynau

Rydym yn dymuno cael eich sylwadau ynghylch y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn 1 Y cynnig
A oes yna unrhyw ganlyniadau posibl i'r cynnig hwn na chafodd eu rhagweld gan y Llywodraeth o bosibl?

Cwestiwn 2 Sylwadau eraill
A oes yna unrhyw ffactorau arwyddocaol y gallem fod wedi'u hesgeuluso a fyddai'n dylanwadu ar ein penderfyniad ynghylch cynnig yr NDA?

Beth sy'n digwydd nesaf?

32. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau ar 26 Gorffennaf 2007. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad ac yna'n cyhoeddi ymateb y Llywodraeth, gan nodi sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen. Nid yw'r cynnig a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghorol hon yn galw am unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ei weithredu a gellid bwrw ymlaen â'r cynnig dan y polisi presennol.

33. Mae maen prawf 6 yng Nghôd Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori yn datgan y dylai penderfyniadau a wneir yng ngoleuni'r ymgynghoriad gael eu gwneud yn gyhoeddus yn brydlon gan roi crynodeb o'r safbwyntiau a rhesymau dros y penderfyniadau terfynol a wneir. Dylai hyn fod ar wefan y DTI, gan gynnwys cyswllt o dudalennau ymgynghori ar y we y DTI yn ganolog, gyda chopïau papur o'r crynodeb ymatebion ar gael ar eich cais.

ATODIAD A

Meini Prawf Côd Ymarfer yr Ymgynghoriad

1. Ymgynghori'n eang gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi.

2. Bod yn eglur ynghylch eich cynigion, ar bwy y gallant effeithio, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymatebion.

3. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac ar gael yn eang.

4. Rhoi adborth ynghylch yr ymatebion a gafwyd a sut y gwnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar y polisi.

5. Monitro effeithlonrwydd eich adran wrth ymgynghori, gan gynnwys trwy ddefnyddio cydlynydd ymgynghoriad dynodedig.

6. Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arferion gorau gwell rheoleiddio, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Reoleiddiol os yw'n briodol.

Mae'r côd cyfan i'w gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet, cyfeiriad
http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/index.asp

Sylwadau neu gwynion

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, ysgrifennwch at:

Kathleen McKinlay,
Cydgysylltydd yr Ymgynghoriad,
1 Victoria Street,
Llundain
SW1H 0ET

Ffoniwch Kathleen ar 020 7215 2811
neu anfonwch e-bost at: Kathleen.McKinlay@dti.gsi.gov.uk

ATODIAD B

Rhestr o Unigolion/Sefydliadau sy'n rhan o'r Ymgynghoriad

Cynrychiolwyr Etholedig

Jamie Reed	AS
Tony Cunningham	AS
Elaine Woodburn	Cyngor Bwrdeistref Copeland (Arweinydd)
Fergus McMorrow	Cyngor Bwrdeistref Copeland (Swyddog)
Jim Musgrave	Cyngor Bwrdeistref Allerdale (Arweinydd)
Sean Gorman	Cyngor Sir Cymbria (Swyddog)

Undebau Llafur (Safle Sellafield)

Peter Kane	GMB
Peter Clements	Prospect
Howard Rooms	UCATT

Undebau Llafur (Cenedlaethol)

Mike Graham	Prospect
Dougie Rooney	Amicus
John Rowse	T&G

Rhyngwladol

Paul McKenna	Llywodraeth Ynys Manaw
Peter Brazel	Iwerddon

BNG

Barry Snelson	BNG Sellafield (Rheolwr-Gyfarwyddwr)
Bill Anderton	BNG Sellafield (Cyfathrebu)
Mark Morant	Safleoedd Adweithyddion (Rheolwr Gyfarwyddwr)
Mark Drulia	Safleoedd Adweithyddion (Cyfathrebu)
Neil Baldwin	Safleoedd Adweithyddion (Northern Bundle)

Eraill

Bwrdd yr NDA	
UKAEA	
David Moore	Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Gorllewin Cymbria
Martin Forwood	Cumbrians Opposed to a Radioactive Environment
Jean McSorley	Greenpeace
Fred Barker	NuLeaf
CoSLA	
Y Rheoleiddwyr	
SERA	
Nuclear Industry Association	
British Nuclear Energy Society	